# CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Llansantffraed a gynhaliwyd am 7:30 pm ar nos Fawrth, 4ydd Mawrth 2025 yn Neuadd Bentref Llanon**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Andrew Phillips (Cadeirydd) Y Cynghorwyr Keith Henson, Claire Humphries, Hywel Llŷr Jenkins, Kathleen Jones, Dennis Morgan, Gwenno Piette, Aled Roberts a Martine Robson.
Mr Denfer Morgan (Clerc)

447 **Trefn**
Estynwyd croeso i'r Cynghorydd Kathleen Jones i'w chyfarfod cyntaf o'r Cyngor. Dywedodd y Clerc fod y Cynghorydd Jones wedi arwyddo'r Datganiad o Dderbyn Swydd.

448 **Cofnodion o'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar 4ydd Chwefror 2025**
**PENDERFYNWYD** cadarnhau cofnodion o'r Cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 4ydd Chwefror 2025.

450 **Archwiliad Misol**
Ni soniwyd am unrhyw fater oedd angen sylw. Nodwyd taw'r Cynghorydd Piette fyddai'n gyfrifol am achwiliad y mis ddilynol.

451 **Materion Cyllidol**
**PENDERFYNWYD** talu'r isod:

Neuadd Bentref Llanon (Cyfarfod Chwefror) - £30
*Cyflog y Clerc (Ion-Chwef-Mawrth)*
Denfer Morgan - £784.16
CThEF (TWE) - £196.04
Costau gweinyddol y Clerc - £333.01

452 **Y Lle Chwarae**
Cyfeiriodd y Cynghorwyr Jenkins a Piette at y prisiau a gafwyd hyd yn hyn am y cyfarpar chwarae newydd a fyddai'n cael eu cyflwyno'n ffurfiol i gyfarfod yn y

**Minutes of a Meeting of Llansantffraed Community Council held at 7:30 pm on Tuesday, 4th March 2025 at the Llanon Village Hall**

**Present:** Councillor Andrew Phillips (Chairman) Councillors Keith Henson, Claire Humphries, Hywel Llŷr Jenkins, Kathleen Jones, Dennis Morgan, Gwenno Piette, Aled Roberts and Martine Robson.
Mr Denfer Morgan (Clerk)

447 **Procedure**
Councillor Kathleen Jones was welcomed to her first meeting of the Council. The Clerk advised that Councillor Jones had signed the Declaration of Acceptance of Office.

448 **Minutes of the Meeting held on 4th February 2025**
It was **RESOLVED** to confirm the Minutes of the Meeting of the Council held on 4th February 2025.

450 **Monthly Inspection**
No matters were reported as needing action. It was noted that Councillor Piette would be responsible for the following month's inspection.

451 **Finance Matters**
It was **RESOLVED** to pay the following:

Llanon Village Hall (February Meeting) - £30
*Clerk's Salary (Jan-Feb-March)*
Denfer Morgan - £784.16
HMRC (PAYE) - £196.04
Clerk's administration costs - £333.01

452 **The Playground**
Councillors Jenkins and Piette referred to the prices they had obtained to date for the new play equipment which would be formally presented to a future meeting for

dyfodol ar gyfer gwneud y gwaith yn 2025-26.

decision and undertaking in 2025-26.

**453 Adroddiad y Cynghorydd Sir Keith Henson**

Adroddodd y Cynghorydd Henson fel a ganlyn:

- roedd yn delio gyda gwaith achos amrywiol
- roedd yn parhau i ddilyn i fyny gydaBarcud a'r Asiantaeth Priffyrdd gosod blychau'r diffibrilyddion yn y ddau gysgodfa bws a hefyd arwydd ar gyfer y Neuadd Bentref ar y gyffordd
- gosodwyd cynnydd o 9.3% yn y dreth gyngor ar gyfer 2025-26 gan y Cyngor Sir. Roedd y Gyllideb yn cynnwys arian ychwanegol ar gyfer addysg, y gwasanaethau cymdeithasol, gorfodaeth cynllunio (gyda'r bwriad o dalu am ei hun) a gwelliannau i ffyrdd. Nid oedd toriadau i wasanaethau yn cael eu cynnig.

**453 Report of County Councillor Keith Henson**

Councillor Henson reported as follows:

- he was dealing various case work
- he was continuing to follow up with Barcud and the Trunk Road Agency the placing of the defibrillator cases in the two bus shelters and also a sign for the Village Hall at the junction
- an increase of 9.3% had been set in the Council Tax for 2025-26 by the County Council. The Budget included additional finance for education, social services, planning enforcement (intended to be self-funding) and road improvements. No cuts in services were proposed.

**454 Unrhyw Fater Arall**

Materion a drafodwyd:

- cytunwyd dilyn i fyny beirniadu'r deunydd a dderbyniwyd ar gyfer y gystadleuaeth addurno blychau plannu
- roedd y materion roedd y Cadeirydd yn dilyn i fyny yn cynnwys delio gyda gwrychoedd a ffensys y llwybrau cyhoeddus, cadarnhau lleoliadau'r biniau halen a chwrdd gyda swyddog o'r Grid Cenedlaethol parthed cyflenwad trydan i'r storfa.

**454 Any Other Matter**

Matters discussed:

- the need to follow up the judging of the material received in the planter design competition
- matters being followed up by the Chairman included dealing with the public footpath hedges and fences, finalising the location of the proposed salt bins and meeting with an officer of the National Grid in respect of an electricity supply for the storage shed.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:35pm

The meeting concluded at 8:35pm